# YR ARDDODIAID / PREPOSITIONS

Diolch i Eleri Jenkins

# ARDDODIAD - PREPOSITION

- Mae'n bwysig ein bod yn defnyddio arddodiaid arbennig ar ôl rhai berfenwau neu gall effeithio ar eu hystyr:
- e.e. edrych **am** – Rydw i'n edrych **am** fy nghi, mae ar goll.
- edrych **ar** – Rydw i'n edrych **ar** y teledu.

# Yr Arddodiaid

| | | | |
|---|---|---|---|
| am | ar | at | gan |
| heb | i | o | dan |
| dros | trwy | wrth | hyd |

| â/ag | at | ar | am |
|---|---|---|---|
| cwrdd â | ysgrifennu at | blino ar | edrych am |
| cyffwrdd â | anfon at | gweddïo ar | gofyn am |
| dod â | mynd at | edrych ar | sôn am |
| mynd â | anelu at | gweiddi ar | talu am |
| peidio â | cyfeirio at | gwenu ar | gorffen am |
| sgwrsio â | cerddded at | gwrando ar | mynd am |
| siarad â | symud at | sylwi ar | siopa am |

# YSGRIFENNWCH YR ARDDODIAD CYWIR YN Y BYLCHAU:

- Maen nhw'n edrych _______ y teledu.
- Rydw i eisiau gwrando _______ y radio.
- Wyt ti eisiau siarad _______ fi?
- Mae'r bachgen yn gwenu _______ Catrin.
- Talodd ef lawer o arian _______ yr anrheg.
- Peidiwch _______ gwneud sŵn.
  Mae hi'n mynd _______ y meddyg yn fisol.
- Mae'r erthygl yn sôn _______ y problemau yn Affrica.

# Tasg

**Ceir arddodiad ym mhob un o'r brawddegau isod. Beth ydyn nhw?**

1. Mae'r papur ___ lawr.

2. Cerdded ______ drws a wnaeth.

3. Mae ______ Rhys arholiadau cyn bo hir.

4. Tyrd yn nes ___ y ffenestr.

5. Cafodd siom _______weld bod y glaw wedi trymhau.

# Atebion

**Ceir arddodiad ym mhob un o’r brawddegau isod.**

1. Mae’r papur ar lawr.
2. Cerdded trwy’r drws a wnaeth.
3. Mae gan Rhys arholiadau cyn bo hir.
4. Tyrd yn nes at y ffenestr.
5. Cafodd siom wrth weld bod y glaw wedi trymhau.

ar

trwy

gan

at

wrth



# GRAMADEG

- Rhaid defnyddio arddodiaid penodol gyda berfau

  - Edrychwch ar y llun.
  - Siaradwch â ffrind.
  - Dwedwch wrth eich partner.
  - Cwrddais i â'r Pennaeth.

# GRAMADEG

Mae arddodiaid yn rhedeg!

Arddodiaid + rhagenw

*Preposition + pronoun*

Ar + fi

Arna i

# YDYCH CHI'N COFIO?

arna i
arnat ti
arno fe
arni hi
arnon ni
arnoch chi
arnyn nhw
ar Sali

# AM

- Amdana i
- Amdanat ti
- Amdano fe
- Amdani hi
- Amdanon ni
- Amdanoch chi
- Amdanyn nhw

w

# WRTH

- Wrthyf i
- Wrthyt ti
- Wrtho fe
- Wrthi hi
- Wrthym ni
- Wrthych chi
- Wrthyn nhw

# DWEUD WRTH…

- Dyweda wrtho fe!
- Dyweda wrthi hi!
- Dyweda wrthon ni!



# AT

- Ataf (i)
- Atat ti
- Ato fe
- Ati hi
- Atom ni
- Atoch chi
- Atyn nhw

# I

- I fi
- I ti
- Iddo fe
- Iddi hi
- I ni
- I chi
- Iddyn nhw

# DROS

- Drosof i
- Drosot ti
- Drosto fe
- Drosti hi
- Drosom ni
- Drosoch chi
- Drostyn nhw

# PA ARDDODIAD SY'N MYND GYDA PHA FERF?

1. to tell.
2. to remember to a person
3. to send to (a person)
4. to congratulate for
5. to talk about
6. to go to (a place)
7. to shout at
8. to write to (a person)
9. to think about
10. to worry about
11. to look at
12. to look / search for
13. to listen to
14. to come from

1. Dweud wrth
2. Cofio at
3. Anfon at
4. Llongyfarch am
5. Siarad am
6. Mynd i
7. Gweiddi ar
8. Ysgrifennu at
9. Meddwl am
10. Poeni am
11. Edrych ar
12. Chwilio am
13. Gwrando ar
14. Dod o

# RHEOL BWYSIG: **'Y DODO'**

'Ble wyt ti'n dod-o?'



A minnau ar wyliau eleni,
  Ces air o gyngor gan ieithgi:
'Paid dodi arddodiad
Ar ddiwedd gosodiad.'
Atebais mewn eiliad, 'Sa'i 'n mynd i!'
*Emyr Davies*

# ARDDODIAID MEWN CWESTIWN

Wrth ofyn cwestiwn, rhaid gosod yr arddodiaid ar ddechrau'r cwestiwn.

Er enghraifft:

Ble rwyt ti'n mynd i? > I ble rwyt ti'n mynd?

Ble rwyt ti'n dod o? > O ble rwyt ti'n dod?

Beth rwyt ti'n sôn am > Am beth rwyt ti'n sôn?

# COFIWCH...

- Rhaid rhedeg arddodiaid ar ddiwedd brawddegau:

  Mae annwyd **arnaf i.**

  Cofiwch fi **ato fe.**

  Anghofiais i roi'r taflenni **iddyn nhw.**

# TREIGLO

Cofiwch y treiglad meddal yn dilyn yr arddodiaid bob tro!
ee.
Rydw i'n dod o **G**aerfyrddin.

Da iawn am **l**wyddo yn y prawf.